



# Ysgol Pentreuchaf

## 14. Polisi Asbestos

### Nod

Mewn cydnabyddiaeth o gyfrifoldeb y Cyngor i bawb oddi fewn i adeiladau sydd ym mherchnogaeth, neu dan feddiant yr Awdurdod, polisi Cyngor Gwynedd yw sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, na chaiff neu eu rhoddi mewn sefyllfa o wynebu risg i'w hiechyd drwy bod yn gysylltiedig gydag unrhyw ddefnyddiau sy'n cynnwys asbestos.

Mae y Polisi yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Asbestos (Trwyddedu) 1983 a Rheoliadau Rheoli Asbestos yn y Gwaith 2004.

Mewn cysylltiad a rheoli Asbestos mewn adeiladau anomestig, mae'r polisi a'r Gweithdrefnau yn gymwys i bob adeilad ac i bob unigolyn a gyflogir a/neu a gyfarwyddir gan yr Awdurdod, a hynny yn ddiethriad.

### Canllawiau

1. Ceisio sicrhau bod datguddiadau i beryglon sy'n gysylltiedig â defnyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu hatal.
2. Sicrhau bod pob eiddo yn cael ei arolygu i ddod o hyd i unrhyw ddefnyddiau sy'n cynnwys asbestos a all fod yn bresennol ynddo a pharatoi a chnnal Cofrestr Asebestos ar gyfer yr holl adeiladau gan gynnwys adolygiadau rheolaidd a diweddar cofnodion am unrhyw waith a wneir i drin/gwared defnyddiad sy'n cynnwys asbestos. Caiff asesiadau o risg eu cynnal mewn sefydliadau â chânt eu rhaglennu fel eu bod wedi eu cwblhau o fewn tair blynedd oni bai fod y ddeddfwriaeth yn pennu fel arall.
3. Sicrhau bod system gyfrifiadurol priodol yn cael ei gosod, ei chynnal a'i rhoi ar waith i reoli asbestos a gwybodaeth am faint, cynnwys a lleoliad asbestos. Dylai'r system hon gynnwys yr asesiadau risg ac anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer trin a/neu waredu'r defnyddiau.
4. Rhoi atrategaeth effeithiol ar waith i reoli asbestos er mwyn i fesurau priodol gwel eu cymryd megis encapswleiddio, labelu, arolygu, gweithio gyda'r defnyddiau neu eu gwaredu.
5. Darparu gwybodaeth am ddefnyddiau sy'n cynnwys asbestos i'r rhai sydd angen gwybod, ac fel ma eyn berthnasol i wneud.
6. Adolygu'r polisi ar weithdrefnau Rheoli Asebestos yn rheolaidd.
7. Hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau y mae defnyddiad sy'n cynnwys asbestos yn eu creu sc o Weithdrefnau Rheoli yr Awdurdod drwy hyfforddi a chyfarwyddo'r staff perthnasol.
8. Sicrhau bod gan yr holl Gontractwyr ac Is-Gontractwyr all ddod i gysylltiad ag asbestos, yr hyfforddiant achrededig angenrheidiol ynghylch ymwybyddiaeth asbestos.
9. Anelu i sicrhau bod pob Contractwr ac Is-Gontractwr a gyfarwyddir i wneud gwaith ar unrhyw un o adeiladau'r Awdurdod yn cael crynodeb, sy'n rhestru'r holl safleoedd a allai gynnwys asbestos, a'u bod yn cael gwybod am y gofalon a'r gweidrefnau priodol sydd i'w dilyn.
10. Sicrhau bod gwybodaeth am bresenoldeb asbestos yn cael ei chynnwys mewn doogfennautendro fel y bo'n briodol a bod gan Gontractwyr ac Is-Gontractwyr Asebiadau Risg, Datganiadau o Ddulliau a.y.y.b. fel y bo'n briodol ynghylch e3i waredu a/neu ei reoli yn ei le. Rhaid i'r cynllun ac unrhyw hysbysiadau y mae eu hangen gael eu cyflwyno gan y contractwyr cyn i'r gwaith ddechrau, i gael eu cymeradwyo gan y Rheolwr Asbestos dynodedig neu ei gynrychiolydd dynodedig. Ni chaiff Contractwyr nac Is-Gontractwyr ddechrau gwaith heb gyflwyno eu datganiad o ddulliau ymlaen llaw i'r Uwch Syrfewr Diogelwch Adeiladau dynodedig neu ei gynrychiolydd.
11. Sicrhau bod unrhyw ddefnyddiau sy'n cynnwys asbestos a all fod yn bresennol yn unrhyw un o'i adeiladau yn cael eu cadw mewn cyflwr sy'n atal posibilrwydd y ceir unrhyw niwed i iechyd.
12. Sicrhau ymrwymiad i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar asbestos, Codau Ymarfer a gymeradwywyd, nodiadau Cyfarwyddyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac ymrwymo i gael gwared yn ddiogel ar unrhyw wastraff asbestos yn unol â'r deddfwriaeth briodol.
13. Darparu adnoddau digonol i sicrhau bod gwybodaeth, cyfarwyddiadau a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu.
14. Yn unol ag argymhellion yr HSE, dylai gwaith ar ddefnydd sy'n cynnwys asbestos gael ei wneud gan Gontractwr / neu Is-Gontractwr Cymwys. Lle mae'n berthnasol o dan y ddeddf, dim ond Contractwr neu Is-Gontractwr Trwyddedig ellir ei ddefnyddio.

Bydd y dewis o ddefnyddio Contractwr Cymwys neu Drwyddedig yn ddibynnol ar y math o asbestos ac asesiad risg gyda chyfarwyddyd ar hyn yn dod o'r Tîm Diogelwch Adeiladau.

### Adolygir: Ionawr 2017

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: \_\_\_\_\_